18

LLOCHESI YSMYGU – CANLLAWIAU



CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

1. CYFLWYNIAD

Mae'r canllawiau byr hyn yn darparu cyngor cyffredinol ar sut y bydd strwythurau ysmygu yn cael eu hasesu gan Unedau Iechyd yr Amgylchedd a Chynllunio Cyngor Gwynedd.

Mae Deddf Iechyd 2006 yn gwneud darpariaeth fel bo mangreoedd cyhoeddus caeëdig a sylweddol gaeëdig ynghyd â mangreoedd gwaith a rennir, yn ddi-fwg. Mae'r Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg a.y.y.b. (Cymru) 2007 yn darparu diffiniad o'r hyn a olygir fel "caeëdig a sylweddol gaeëdig", fodd bynnag, fel rheol gyffredinol dylai o leiaf 50% o berimedr strwythur y waliau fod yn agored.

Nid oes unrhyw ofyn o fewn y deddfwriaethau uchod i gyflogwyr a thafarnwyr ddarparu lloches ysmygu. Fodd bynnag, fe allai llawer o fusnesau a chyflogwyr ddewis darparu rhai ar gyfer eu cwsmeriaid a'u gweithwyr.

2. YR ANGEN AM GANIATAD CYNLLUNIO NEU GANIATAD ADEILAD RHESTREDIG

Yn gyffredinol, mae pob strwythur allanol a chanopïau parhaol angen Caniatâd Cynllunio. Os yw'ch adeilad yn rhestredig, byddwch hefyd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig. Os byddwch yn gosod unrhyw fath o hysbyseb ar eich canopi neu strwythur, fe fyddwch hefyd angen Caniatâd Hysbyseb..

3. PA FATH O STRWYTHUR A ALLAI FOD YN DDERBYNIOL?

Wrth benderfynu unrhyw gais am gyfleusterau i ysmygwyr, y prif faterion i'w hystyried fydd:-

- A yw'r strwythur yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Mangreoedd Di-fwg a.y.y.b., (Cymru) 2007? h.y. a ydyw o leiaf 50% yn agored.

- A fydd lleoliad y strwythur yn cael effaith anffafriol ar breswylwyr cyfagos neu eiddo cyfagos? h.y. o ran sŵn gan gwsmeriaid neu fwg yn treiddio i ardaloedd Di-Fwg neu i eiddo cyfagos.

- A yw'r strwythur/canopi yn unol â'u hawyrgylch o ran ei ardrawiad gweledol? Os yw'r adeilad wedi ei leoli o fewn Ardal Gadwraeth neu'n Adeilad Rhestredig, yna fe ddylid cymeryd gofal ychwanegol wrth ddewis y strwythur.

4. BLE DDYLID LLEOLI'R LLOCHES YSMYGU?

- Cyn belled ag y bo modd oddi wrth unrhyw eiddo preswyl cyfagos neu adeilad cyhoeddus.

- Osgoi lleoli ar du blaen adeiladau yn enwedig os y gallai ysmygwyr greu rhwystr ar droedffyrdd neu arwain at ymddygiad afreolus.

- Osgoi lleoli lloches ble y gallai mwg dreiddio i ardaloedd di-fwg.

- Osgoi lleoli'r lloches yn rhy agos at adeiladau neu strwythurau eraill a allai rwystro'r awyriad a ddarperir o fewn y lloches.

5. A OES ANGEN CANIATAD AR GYFER UNEDAU GWAREDU SIGARENNAU

Mae'n ymarfer da i ddarparu "unedau gwaredu sigarennau" mewn llochesi ysmygu er mwyn osgoi blerwch gwastraff sigarennau, ac yn gyffredinol os y lleolir o fewn y lloches ei hun, ni fyddent angen caniatâd.

Mae hefyd yn arferol gweld cyfleusterau o'r fath ger mynedfeydd i adeiladau cyhoeddus ac yn ddibynnol nad ydynt yn peri rhwystr mewn unrhyw droedffordd cyhoeddus ac nad ydynt wedi eu gosod ar adeilad rhestredig, ni fyddai angen caniatâd i'w gosod gan y cânt eu ystyried fel " de minimus".

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL

Yn ogystal, dyma rai dolenni cyswllt a allai fod yn ddefnyddiol i chi:

www.gwaharddsmygucymru.co.uk
www.thepublican.com

CYNGOR PELLACH

Os yr hoffech gyngor pellach ar faterion lechyd yr Amgylchedd neu Cynllunio cyn penderfynu gwneud cais am ganiatâd ar gyfer Lloches/Canopi Ysmygu, gallwch gysylltu â'r Cyngor gan ddefnyddio un o'r rhifau ffôn a ddanghosir ar dudalen "sut i gysylltu â ni":

SUT I GYSYLLTU Â NI:

POLISI CYNLLUNIO

Uned Polisi a Pherfformiad, Adran yr Amgylchedd,
Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

Rhif Ffôn: (01286) 679890
Rhif Ffacs:(01286) 673324
e-bost: NiaHafDavies@gwynedd.gov.uk

RHEOLI DATBLYGU A GORFODAETH

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth, Adran yr Amgylchedd,
Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN.

Rhif Ffôn: (01286) 682765
Rhif Ffacs: (01286) 682771
e-bost: Cynllunio/planningArfon@gwynedd.gov.uk

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth, Adran yr Amgylchedd,
Swyddfa Ardal Dwyfor, Ffordd y Cob, Pwllheli, LL53 5AA.

Rhif Ffôn: (01758) 704118
Rhif Ffacs: (01758)704053
e-bost: Cynllunio/planningDwyfor@gwynedd.gov.uk

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth, Adran yr Amgylchedd,
Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau, Gwynedd, LL40 2YB.

Rhif Ffôn: (01341) 424414
Rhif Ffacs:(01341) 424440
e-bost: Cynllunio/planningMeirionnydd@gwynedd.gov.uk

CADWRAETH ADEILADAU

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth, Adran yr Amgylchedd,
Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1BN.

Rhif Ffôn: (01286) 682765
Rhif Ffacs: (01286) 682771
e-bost: Cynllunio/planningArfon@gwynedd.gov.uk

IECHYD YR AMGYLCHEDD

Gwasanaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd, Cyfadran Adnoddau,
Swyddfa Ardal Arfon, Penrallt, Caernarfon, Gwynedd LL55 1BN

Rhif Ffôn: (01286) 682 728
e-bost : Gwaharddysmygu@gwynedd.gov.uk